Bitesize

# Dulliau cosbi

Mae dulliau cosbi erchyll ac ofnadwy wedi bodoli dros y canrifoedd.

Bum can mlynedd yn ôl, brawychu a chodi cywilydd oedd y nod.

Ond wrth i'r canrifoedd basio, newidiodd agweddau. Daeth alltudiaeth, carcharu ac adferiad yn lle codi cywilydd yn gyhoeddus, arteithio a dienyddio.

Dechreuwn ni gyda'r Tuduriaid.

Roedden nhw'n credu mewn cosbau erchyll, poenus, dialgar a bychanus. Bydden nhw'n aml yn cosbi'n gyhoeddus er mwyn codi cymaint o gywilydd â phosib.

Ar gyfer pethau di-nod fel bod yn grwydryn, byddai pobl yn cael eu chwipio, eu rhoi yn y stociau neu'n cael eu gwarthnodi â 'V'.

Cosbau corfforol oedd 'rhain gyda'r bwriad o fod yn boenus neu'n anghyffyrddus.

Ond rhoddwyd y gosb eithaf fel llosgi'n fyw, dienyddio neu grogi ar gyfer troseddau mwy difrifol.

Newidiodd fawr ddim am ganrif a hanner wedi hynny, ond dechreuodd pethau newid erbyn y 18fed ganrif.

Roedd rhai barnwyr yn credu bod y gosb eithaf yn rhy llym ar gyfer troseddau fel pigo pocedi a photsio, felly dechreuon nhw alltudio troseddwyr tramor yn lle 'ny.

Er bod alltudio'n llym roedd yn rhad, ac helpodd gryfhau rheolaeth Prydain dramor.

Ond doedd alltudio ddim yn boblogaidd gyda phawb. Doedd pobl yn nhrefedigaethau Prydain ddim yn hapus iawn i gyd-fyw gyda throseddwyr.

A doedd pobl adre ddim yn hapus chwaith, wrth feddwl bod troseddwyr yn cael cyfle i joio bywyd braf tramor.

Felly, daeth alltudio i ben, a'r carchar oedd cartre' newydd y troseddwyr hyn.

Roedd y carchardai Prydeinig cynnar yn frith o afiechydon, yn llawn trais ac yn llawn dop. Roedd y gardiau'n aml yn llwgr.

A phan roedd y carchardai'n llawn, rhoddodd y llywodraeth droseddwyr mewn llongau carchar, sef hen longau rhyfel.


© Hawlfraint BBC

Cosb boblogaidd yng Nghymru oedd Ceffyl Pren – sef clymu pobl i ffrâm bren a'u cerdded drwy'r dre er mwyn eu bychanu.

Yn y 19eg bymtheg, ceisiodd llywodraeth Prydain amryw o ffyrdd i gosbi carcharorion, fel systemau ar wahân a thawel, ond arweiniodd rhain at gynnydd mewn hunanladdiad.

Yn ystod y 19eg bymtheg, arweiniodd syniadau Cristnogol o faddau a diwygio at ailystyried agweddau cosbi.

Roedd erchylltra cyhoeddus y gosb eithaf nawr yn ymddangos yn farbaraidd, ac fe wnaeth Syr Robert Peel ei ddileu ar gyfer dros 180 o droseddau. Erbyn 1861, dim ond pum trosedd a fyddai'n arwain at ddienyddio.

Wrth gwrs, roedd pobl yn dal i gymryd y gyfraith i'w dwylo eu hunain, fel y 'Scotch Cattle' – criwiau o lowyr oedd yn ymosod ar eu cydweithwyr os oedden nhw'n gwrthod streicio.

Erbyn yr 20fed ganrif, roedd carcharorion yn cael eu trin yn well, gyda chyrsiau adfer a gwell safon o fwyd.

(Ti'n breuddwydio mêt? So fe mor neis a hynny.)

Adeiladwyd borstalau ar gyfer troseddwyr ifanc, oedd yn llai llym o gymharu â charchar i oedolion.

Daeth cosbi corfforol i ben yn 1948, a'r gosb eithaf yn 1969.

Y dyddiau hyn, mae'r gyfraith yn dweud bod colli rhyddid, dirwyo, a gwasanaeth cymunedol yn gosbau digon llym ac yn ataliadau da. Tipyn gwell na cheryddu creulon y Tuduriaid.


© Hawlfraint BBC